OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 805 (Cy.112)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Benfro (Cymunedau Llanfair Dinbych-y-pysgod a Dinbych-y-pysgod) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2012* |

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Hydref 2011 ar ei adolygiad o gymunedau Llanfair Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot a Dinbych-y-pysgod yn Sir Benfro a'i gynigion ynglŷn â hwy.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hynny heb eu haddasu.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Benfro (Cymunedau Llanfair Dinbych-y-pysgod a Dinbych-y-pysgod) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym at bob diben ar 1 Ebrill 2012, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Map" ("*the Map*") yw'r map a farciwyd â "Y map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Sir Benfro (Cymunedau Llanfair Dinbych-y-pysgod a Dinbych-y-pysgod) 2012" ac sydd wedi ei adneuo yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

---

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**);

mae unrhyw gyfeiriad at adran etholiadol yn gyfeiriad at adran etholiadol o Sir Benfro; ac

os dangosir bod ffin ar y map yn rhedeg ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, rhaid ei thrin fel pe bai'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

**Newid ardaloedd cymunedau a newidiadau canlyniadol mewn trefniadau etholiadol**

**3.** Mae'r rhan o gymuned Dinbych-y-pysgod a ddangosir â llinellau rhesog ar y Map—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod; a

(b) yn rhan o adran etholiadol Penalun.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

10 Mawrth 2012

(**3**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol, sef diwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn statudol hwn).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*


Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'n rhoi effaith i gynigion gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") a gyflwynodd adroddiad ym mis Hydref 2011 ar ei adolygiad o ffiniau cymunedol Llanfair Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot a Dinbych-y-pysgod yn Sir Benfro. Yr oedd adroddiad y Comisiwn yn argymell trosglwyddo ardal Waterwynch o gymuned Dinbych-y-pysgod i gymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i argymhelliad y Comisiwn heb ei addasu.

Mae printiau o'r mapiau sy'n dangos y ffiniau wedi eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Penfro yn Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (Tîm Llywodraeth Leol a Chymunedau).

Mae Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (O.S. 1976/246) y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol ac atodol ynglŷn ag effaith a gweithredu gorchmynion fel hwn.

**Y map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Sir Benfro (Cymunedau Llanfair Dinbych-y-pysgod a Dinbych-y-pysgod) 2012**




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2012.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif y Drwydded: 100021874

240.11-12 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Llywodraeth Cymru